



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Rhoi Tystysgrifau lechyd Allforio ar gyfer Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid oddi ar y Safle Gwreiddiol

**Canllawiau i Weithredwyr Busnesau Bwyd a
Swyddogion Ardystio ar roi Tystysgrifau lechyd
Allforio mewn hybiau logisteg neu safleoedd eraill lle
mae nwyddau'n cyrraedd drwy gadwyn gyflenwi**

Awst 2021



© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn FishEHC@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Trosolwg	4
Model yr Hwb Logisteg	6
Cyfuno yn yr hwb/safle anfon.....	9
Tystiolaeth i'w darparu i'r ardystiwr yn yr hwb logisteg/safle anfon	11
Cyflenwyr cynhyrchion pysgodfeydd (gan gynnwys pysgod ffres) a Molysgiaid Dwygragenog Byw	12
Cyflenwyr cynhyrchion eraill sy'n dod o anifeiliaid.....	15
Ardystio Tystysgrifau Iechyd Allforio	17
Tystysgrifau Iechyd Allforio Ar-lein.....	19
Atodiad I: Gwybodaeth ategol ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd (gan gynnwys pysgod ffres) a Molysgiaid Dwygragenog Byw a ardystir o dan y dull Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg (RBFEC)	20
Rhan I: Ardystiad Ategol.....	21
Rhan II: Datganiad Cyflenwr	23
Rhan III: Manylion y cynnyrch/cynhyrchion	25
Atodiad II: Gwybodaeth ategol ar gyfer anifeiliaid dyframaeth byw a restrir, neu cynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hyn y bydd angen eu prosesu ymhellach neu a gaiff eu prosesu ymhellach cyn i bobl eu bwyta a ardystir o dan y dull Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg (RBFEC)	28
Rhan I: Ardystiad Iechyd Anifeiliaid Milfeddygol.....	29
Rhan II: Ardystiad Ategol.....	32

Trosolwg

1. Mae gwledydd neu ranbarthau sy'n mewnfario yn ei gwneud yn ofynnol bod nwyddau sy'n cael eu masnachu gyda nhw yn ddiogel er mwyn gwarchod iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid. Fel arfer, caiff diogelwch o'r fath ei sicrhau drwy ei gwneud yn ofynnol i Dystysgrif Iechyd Allforio gael ei rhoi gan, neu ar ran, llywodraeth y wlad sy'n allforio. Fel arfer, caiff Tystysgrifau Iechyd Allforio eu pennu gan y wlad sy'n mewnfario mewn negodiadau rhwng awdurdodau cymwys y gwledydd sy'n masnachu.
2. Mae Tystysgrifau Iechyd Allforio yn ddatganiad diffiniol ac awdurdodol o gydymffurfiaeth â'r gofynion a nodir gan y wlad neu'r rhanbarth sy'n mewnfario. Mae Tystysgrifau Iechyd Allforio yn ofynnol i allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid o Brydain Fawr i'r Undeb Ewropeaidd a, lle y bo'n berthnasol, ar gyfer symudiadau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon o dan Brothocol Gogledd Iwerddon.
3. Mae'n rhaid i'r Dystysgrif Iechyd Allforio ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w bwyta gan bobl gael ei llofnodi gan Swyddog Ardystio sydd wedi'i ddynodi'n briodol, a all fod yn Filfeddyg Swyddogol neu'n Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd¹:
 - a. Mae'n ofynnol i Filfeddygon Swyddogol lofnodi Tystysgrifau Iechyd Allforio ar gyfer y rhan fwyaf o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y bydd angen eu hardystio i'w hallforio i'r UE a symudiadau i Ogledd Iwerddon a
 - b. Gall cynhyrchion pysgodfeydd, molysgiaid dwygragenog byw a rhai cynhyrchion cyfansawdd gael eu hardystio o dan amgylchiadau penodol gan Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd, yn ogystal â Milfeddygon Swyddogol. Rydym yn disgwyl y gall y rhan fwyaf o bysgod wedi'u dal o'r gwyllt, cynhyrchion pysgodfeydd a molysgiaid dwygragenog byw, o dan amgylchiadau penodol, gael eu hardystio gan Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd. Rhaid i Dystysgrifau Iechyd Allforio ar gyfer allforio anifeiliaid dyframaeth byw a restrir², a chynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hyn y bydd angen eu prosesu ymhellach³ neu a gaiff eu prosesu ymhellach cyn i bobl eu bwyta, gael eu llofnodi gan Filfeddyg Swyddogol. Mae rhagor o fanylion am hyn ac unrhyw ofynion ar gyfer archwiliadau clinigol ac archwiliadau o safleoedd dyframaeth i'w gweld yn y nodiadau canllaw ar gyfer y tystysgrifau hyn.

¹ Roedd Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd yn cael eu galw'n 'Swyddog Ardystio Anfilfeddygol' yn flaenorol. Bydd personau a ddynodwyd yn Swyddogion Ardystio Anfilfeddygol yn dod yn Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd yn awtomatig.

² Rheoliad (UE) 2020/2235, Rheoliad (UE) 2018/1882

³ Prosesu ymhellach: mae hyn yn ymwneud â chynhyrchion y mae'n rhaid eu prosesu ymhellach cyn eu rhoi ar y farchnad, yn ogystal ag anifeiliaid dyfrol byw a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid dyfrol heblaw anifeiliaid dyfrol byw, a fydd yn mynd i sefydliad bwyd dyfrol ar gyfer rheoli clefydau fel y'i diffiniwyd yn Erthygl 4(52) o Reoliad (UE) 2016/429 Senedd Ewrop a'r Cyngor

4. Mae'n rhaid i bob cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid, heb gynnwys cynhyrchion cyfansawdd, a allforir i'r UE, neu a symudir i Ogledd Iwerddon, gael ei anfon o safle sydd wedi'i restru'n sefydliad bwyd cymeradwy yn unol â Rheoliad hylendid bwyd 853/2004. Mae'n rhaid i sefydliadau o'r fath a gaiff eu defnyddio ar gyfer allforion i'r UE, neu symudiadau i Ogledd Iwerddon, hefyd gael eu cynnwys yn y rhestr o safleoedd o'r fath a gedwir at y diben hwn gan yr UE.
5. Gall cynhyrchion cyfansawdd gael eu hanfon o sefydliadau bwyd cofrestredig⁴ ar yr amod bod y Gweithredwr Busnes Bwyd yn prynu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid wedi'u prosesu, a gynhyrchwyd mewn sefydliad bwyd cymeradwy, ac nad yw'n prosesu'r cynhyrchion hyn sy'n dod o anifeiliaid wrth gynhyrchu ei gynhyrchion cyfansawdd. Am ragor o wybodaeth am gynhyrchion cyfansawdd, cyfeiriwch at y canllawiau ar wefan GOV.UK⁵.
6. Gall cadwyni cyflenwi gynnwys sawl Gweithredwr Busnes Bwyd cyn bod y nwyddau'n cyrraedd y sefydliadau bwyd cymeradwy (neu gofrestredig yn achos cynhyrchion cyfansawdd) y cânt eu hanfon i'r gyrchwlad ohonynt.
7. Mae'r canllawiau hyn yn gymwys ledled Prydain Fawr. Maent yn nodi sut y gall Gweithredwyr Busnesau Bwyd a Swyddogion Ardystio lenwi'r bwlch yn y dystiolaeth sy'n ofynnol rhwng y tarddle a'r lle anfon, er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Swyddog Ardystio sy'n gyfrifol am ardystio'r nwyddau i roi'r Tystysgrifau lechyd Allforio perthnasol.
8. O dan y darpariaethau ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon, ni fydd angen Tystysgrifau lechyd Allforio ar allforion o Ogledd Iwerddon i'r UE ar ddiwedd y cyfnod pontio⁶. O dan y mynediad dirwysr i'r farchnad ar gyfer nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon i Brydain Fawr, bydd cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid hefyd yn parhau i gael eu symud i Brydain Fawr heb fod angen unrhyw ardystio ychwanegol. Fodd bynnag, pan fydd cynhyrchion yn cael eu symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr i'w hallforio ymlaen i'r UE, trydydd gwledydd y tu allan i'r UE, neu i'w symud yn ôl i Ogledd Iwerddon, naill ai'n uniongyrchol neu ar ôl eu prosesu ymhellach, bydd yn rhaid i'r Swyddog Ardystio ym Mhrydain Fawr gael gwybodaeth ategol gan Swyddogion Ardystio yng Ngogledd Iwerddon er mwyn caniatáu i'r nwyddau gael eu hardystio ac i'r Dystysgrif lechyd Allforio berthnasol gael ei chwblhau. Gellir defnyddio'r egwyddorion yn y canllawiau hyn wrth ddarparu'r wybodaeth ategol sydd ei hangen.

⁴ Mae'n rhaid i bob sefydliad bwyd gofrestru â'i Awdurdod Lleol, oni bai ei fod yn ymgymryd â phrosesau sy'n gofyn am gymeradwyaeth. Os felly, mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo. Mae'n rhaid i sefydliadau cofrestredig gyrraedd lefel foddhaol o gydymffurfiaeth â rheolaethau sylfaenol a diffinnir yn Rheoliad 852/2004. Mae'n rhaid i sefydliadau bwyd cymeradwy gyrraedd lefel foddhaol o gydymffurfiaeth â rheolaethau ychwanegol a ddiffinnir yn Rheoliad 853/2004 ac fe'u rhestrir ar restrau [sefydliadau bwyd a gymeradwywyd yn y DU](#) a [sefydliadau bwyd a gymeradwywyd yn yr UE](#).

⁵ <https://www.gov.uk/guidance/export-composite-food-products-to-the-eu-in-a-no-deal-brexite>

⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/moving-goods-under-the-northern-ireland-protocol/moving-goods-under-the-northern-ireland-protocol-introduction>

9. Nid yw'r opsiynau a gyflwynir yn y canllawiau hyn yn gynhwysfawr nac yn rhagnodol. Yn y bôn, cyfrifoldeb y Swyddog Ardystio sy'n rhoi'r Dystysgrif Iechyd Allforio yw penderfynu a yw wedi cael y wybodaeth gywir er mwyn ardystio'r Dystysgrif Iechyd Allforio.
10. Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at hybiau logisteg a gymeradwyir fel storfeydd oer neu sefydliadau ail-lapio ac ailbecynnu, fel enghraifft o sefydliad bwyd cymeradwy lle y gellir cyfuno a/neu anfon llwythi. Sefydliad sydd wedi'i gynllunio'n benodol at y diben hwn yw hwb logisteg. Efallai y bydd yn bosibl cyfuno a/neu ardystio llwythi mewn sefydliadau bwyd cymeradwy eraill yn seiliedig ar yr egwyddorion a amlinellir yn y canllawiau hyn. Yn y canllawiau hyn, mae'r term 'safle gwreiddiol' yn cyfeirio at y safle y daw'r nwyddau ohono cyn cael eu hanfon i'r hwb logisteg.

Model yr Hwb Logisteg

11. Mae'n rhaid i'r sefydliad sy'n cael ei ddefnyddio fel hwb logisteg gydymffurfio â'r safonau a ddiffinnir yn [Rheoliad 853/2004](#)⁷, oni bai ei fod yn trafod cynhyrchion cyfansawdd (gweler pwynt 5). Yr Awdurdod Lleol fydd yn cymeradwyo'r safle oni bai ei fod yn sefydliad y mae'n rhaid iddo fod o dan reolaeth filfeddygol. Os felly, caiff ei gymeradwyo gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd neu Food Standards Scotland. Bydd yr hwb logisteg yn derbyn, yn trafod ac yn storio'r nwyddau a/neu'n eu cyfuno, fel y caniateir drwy ei statws fel sefydliad bwyd cymeradwy (gweler pwynt 13).
12. Nid oes rhaid i weithredwr yr hwb logisteg fod yn drosglwyddydd nac yn allforiwr y nwyddau ond disgwylir iddo weithredu fel allforiwr neu asiant allforio ar ran y safle gwreiddiol (cyflenwr), yn y rhan fwyaf o achosion am resymau logistaidd ac er mwyn darparu'r adnoddau i hwyluso'r broses ardystio. Ymhlith y sefydliadau bwyd y mae'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan ALLau mae:
 - a. Sefydliadau cyffredinol (y cyfeirir atynt fel hybiau logisteg yn y ddogfen hon)
 - i. storfeydd oer
 - ii. sefydliadau ail-lapio ac ailbecynnu
 - b. Sefydliadau cig
 - i. sefydliadau briwgig
 - ii. sefydliadau paratoi cig
 - iii. sefydliadau sy'n gwahanu cig yn fecanyddol
 - iv. safleoedd prosesu cynhyrchion cig
 - v. safleoedd prosesu brasterau anifail wedi'u rendro a chriwsion
 - vi. safleoedd prosesau stumogau, pledrenni a choluddion wedi'u trin
 - vii. safleoedd prosesu gelatin/prosesu colagen
 - c. Sefydliadau pysgod a physgod cregyn

⁷ Am ragor o wybodaeth am y gofynion ar fusnesau bwyd i gael eu cydnabod yn sefydliad bwyd cymeradwy, gweler [gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd](#) neu, yn yr Alban, gwefan [Food Standards Scotland](#).

- i. canolfannau anfon - sefydliadau molysgiaid dwygragennog byw
 - ii. canolfannau puro - sefydliadau molysgiaid dwygragennog byw
 - iii. safle prosesu - prosesu cynhyrchion pysgodfeydd, gan gynnwys cychod ffatri a rhewi
 - iv. safle cynhyrchion pysgodfeydd ffres - trafod cynhyrchion pysgodfeydd heb eu prosesu nad ydynt wedi cael eu trin i'w cadw heblaw am oeri
 - v. neuadd arwerthu - storio ac arddangos cynhyrchion pysgodfeydd ar gyfer arwerthiant
 - vi. sefydliad ar gyfer y farchnad gyfanwerthu - sy'n cynnwys is-unedau ar wahân sy'n gweithredu'n annibynnol fel busnes bwyd, ond sy'n rhannu cyfleusterau cyffredin
- d. Sefydliadau llaeth
- i. canolfannau casglu llaeth heb ei drin lle y caiff ei oeri a'i hidlo
 - ii. safleoedd prosesu sy'n trin, yn prosesu a/neu'n lapio cynhyrchion llaeth (llaeth neu unrhyw gynnyrch llaeth)
- e. Sefydliadau cynhyrchion anifeiliaid
- i. canolfannau pacio - pacio a graddio wyau yn ôl ansawdd a phwysau
 - ii. safleoedd prosesu - safleoedd prosesu cynhyrchion wyau/wyau hylif – trafod cynnwys wyau heb ei brosesu ar ôl tynnu'r plisgyn
13. Mae sefydliadau bwyd sydd wedi'u cymeradwyo gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd/Food Standards Scotland yn cynnwys:
- a. Lladd-dai
 - b. Safleoedd torri cig
 - c. Sefydliadau trin helgig
 - d. Marchnadoedd cig cyfanwerthu
14. Mae'n rhaid bod nwyddau sy'n cyrraedd hybiau logisteg ar ôl mynd drwy broses gynhyrchu y tu hwnt i gynhyrchu cynradd^{8,9} wedi dod o sefydliadau bwyd cymeradwy. Mae'n rhaid cofnodi rhif cymeradwyo'r sefydliadau perthnasol yn y gadwyn gyflenwi i'r hwb logisteg ar y Dystysgrif Iechyd Allforio.
15. O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd nwyddau yn cyrraedd hwb logisteg yn uniongyrchol o gyfleusterau cynhyrchu cynradd (e.e. cwch pysgota cofrestredig). Os felly, bydd y wybodaeth ategol sydd ei hangen wedi'i chyfyngu i wybodaeth fasnachol y gall y Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg ei dilysu (gweler pwynt 29).

⁸ Fel y'i diffiniwyd yn [Rheoliad Rhif 178/2002 y CE](#), o ran bwyd sy'n dod o anifeiliaid: ystyr 'cynhyrchu cynradd' yw cynhyrchu, magu neu dyfu cynhyrchion cynradd, gan gynnwys cynaeafu, godro a chynhyrchu anifeiliaid fferm cyn eu lladd. Mae hefyd yn cynnwys hela a physgota a chynaeafu cynhyrchion gwyllt.

⁹ Fel y'i diffiniwyd yn [Rheoliad Rhif 853/2004 y CE](#), o ran cynhyrchion pysgodfeydd yn benodol: mae 'cynhyrchu cynradd' yn cwmpasu ffermio, pysgota a chasglu cynhyrchion pysgodfeydd byw gyda'r nod o'u rhoi ar y farchnad, ac mae 'gweithrediadau cysylltiedig' yn cwmpasu unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol, os bydd yn digwydd mewn cychod pysgota: lladd, gwaedu, tynnu'r pen, tynnu perfedd, tynnu esgyll, oeri a lapio.

Mewn achos o'r fath, mae'n rhaid bod yr hwb logisteg yn gallu ymgymryd â'r holl weithgareddau rheoli sydd eu hangen o dan y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol, [Rheoliad 2019/627](#) a'r Dystysgrif Iechyd Allforio.

16. Mae'n rhaid cyflwyno'r ardystiad(au) ategol perthnasol ar y cyd â nwyddau sy'n cyrraedd hybiau logisteg. Mae'n rhaid i ardystiadau ategol fod yn dderbyniol i'r Swyddog Ardystio sy'n rhoi'r Dystysgrif Iechyd Allforio. Dylai'r Gweithredwyr Busnesau Bwyd sy'n rhedeg hybiau logisteg (y cyfeirir atynt fel 'gweithredwyr hybiau logisteg'), y Gweithredwyr Busnesau Bwyd sy'n cyflenwi'r hybiau logisteg (y cyfeirir atynt fel 'cyflenwyr'), a'u Swyddogion Ardystio drafod a chytuno ar ba ardystiadau ategol sy'n dderbyniol i'r Swyddogion Ardystio yn yr hwb logisteg.
17. Mae Swyddogion Ardystio mewn hybiau logisteg yn defnyddio'r wybodaeth ategol hon i hwyluso'r broses o ardystio nwyddau a rhoi Tystysgrifau Iechyd Allforio. Mae'n rhaid i'r Dystysgrif Iechyd Allforio gael ei rhoi cyn i'r llwyth y mae'n ymwneud ag ef adael yr hwb logisteg ac mae'n rhaid i'r Dystysgrif Iechyd Allforio wreiddiol ffisegol deithio gyda'r llwyth a chael ei chyflwyno wrth gyrraedd yr UE neu Ogledd Iwerddon.
18. Ar ôl i'r nwyddau gael eu hanfon o'r hwb logisteg i'r gyrchwlad, bydd yn rhaid iddynt gael eu harchwilio yn y safle rheoli ffiniau cyntaf y maent yn ei gyrraedd yn yr UE, neu fan cyrraedd yng Ngogledd Iwerddon. Mae safleoedd rheoli ffiniau a manau cyrraedd yn amrywio o ran y mathau o nwyddau y gallant eu derbyn. Dylai gweithredwyr hybiau logisteg [gadarnhau y caiff y nwyddau y maent yn eu hanfon i'r UE neu Ogledd Iwerddon eu derbyn yn eu dewis safle rheoli ffiniau neu fan cyrraedd](#).

Cyfuno yn yr hwb/safle anfon

19. Ar ôl derbyn swp o gynnyrch mewn hwb logisteg, neu safle arall oddi ar y safle gwreiddiol, gyda'r wybodaeth ategol berthnasol, efallai y bydd modd i'r Swyddog Ardystio gyfuno nifer o sypiau o gynnyrch yn un llwyth¹⁰, a fyddai'n cael ei gwmpasu gan un Dystysgrif lechyd Allforio. Gallai hyn gwmpasu:
- llinellau cynnyrch lluosog o'r un math o nwydd (e.e. cynhyrchion cyfansawdd) gan yr un cyflenwr¹¹ neu
 - sypiau lluosog o'r un math o nwydd (e.e. cynhyrchion pysgodfeydd) gan gyflenwyr gwahanol^{12,13}.
20. Mae'r Dystysgrif lechyd Allforio yn pennu'r math a'r amrywiaeth o nwyddau y gellir eu hardystio'n un llwyth, ond gellid cludo grŵp o lwythi wedi'u hardystio'n unigol gyda'i gilydd fel llwyth cymysg:
- Gellir cyfuno sypiau lluosog o fathau gwahanol o nwyddau (e.e. cynhyrchion cig) yn llwyth cymysg i'w gludo ond mae pob math o nwydd yn parhau'n llwyth ar wahân at ddibenion ardystio a bydd angen iddo gael ei gwmpasu gan ei Dystysgrif lechyd Allforio ei hun.
21. Dim ond os yw'r hwb logisteg wedi'i gymeradwyo'n benodol gan ei Awdurdod Lleol (ALI) i drafod y cynnyrch sy'n cael ei anfon y gall Swyddog Ardystio ddefnyddio gwytodaeth ategol i ardystio llwythi yn yr hwb logisteg/safle anfon.
22. Mae'r broses o gyfuno llwythi (fel y cyfeirir ati ym mhwynt 20) yn arwain at lai o Dystysgrifau lechyd Allforio y bydd angen eu gwirio mewn safleoedd rheoli ffiniau a thrwy hynny'n lleihau'r posibilrwydd o oedi mewn safleoedd rheoli ffiniau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi os bydd un swp o gynhyrchion mewn llwyth (a gwmpesir gan un Dystysgrif lechyd Allforio) yn methu yn yr archwiliad yn y safle rheoli ffiniau, bydd yr holl sypiau cysylltiedig yn methu, sy'n golygu y bydd angen i'r llwyth cyfan gael ei ddychwelyd, ei ddinistrio neu ei ail-bwrpasu. Fodd bynnag, os oedd llwythi eraill yn cael eu cludo ar yr un pryd (wedi'u cwmpasu gan Dystysgrifau

¹⁰ ystyr 'llwyth' yw swm o nwyddau a gwmpesir gan yr un Dystysgrif lechyd Allforio, a gludir drwy'r un dull teithio, ac sydd o'r un math, dosbarth neu ddisgrifiad – y diffiniad a roddir gan [Reoliad \(UE\) 2017/625](#).

¹¹ E.e. Mae cyflenwr yn cyrchu cynhwysion (cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid wedi'u prosesu, cynnyrch llaeth wedi'i brosesu, ac ati...) i gynhyrchu sawl llinell gynnyrch (pizza, lasagne, burritos) ac am fod elfennau'r llinellau cynnyrch hyn yn dod o'r un ffynonellau, gellir eu cyfuno'n un llwyth o 'gynhyrchion cyfansawdd' a'u cludo ar long o dan yr un Dystysgrif lechyd Allforio.

¹² E.e. Caiff sypiau o gynhyrchion pysgodfeydd ffres (penwaig, mecryll, eogiaid, cimychiaid, crancod, ac ati...) eu casglu gan gyflenwyr lluosog mewn lleoliadau gwahanol ar hyd yr arfordir a'u cludo i hwb logisteg, lle y gellid cyfuno'r sypiau hyn yn un llwyth o 'gynhyrchion pysgodfeydd' a'u hallforio o dan yr un Dystysgrif lechyd Allforio.

¹³ At ddibenion logistaidd, efallai y byddai'n ddoeth neu'n angenrheidiol defnyddio Tystysgrifau lechyd Allforio ar wahân ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd wedi'u hoeri a chynhyrchion pysgodfeydd wedi'u rhewi, cynhyrchion pysgodfeydd cyfan a chynhyrchion pysgodfeydd lle mae'r perfedd wedi'i dynnu, a chynhyrchion pysgodfeydd gwyllt a chynhyrchion pysgodfeydd dyframaethu.

lechyd Allforio eraill), gallai'r rhain gael eu rhyddhau i'w hanfon ymlaen ond efallai y byddai angen logisteg i ddarparu opsiynau cludo ychwanegol.

Tystiolaeth i'w darparu i'r ardystiwr yn yr hwb logisteg/safle anfon

23. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r opsiynau sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth ategol i Swyddog Ardystio mewn hwb logisteg/safle anfon.
24. Mae'n rhaid i ardystwyr arfer eu barn broffesiynol wrth benderfynu a ddarparwyd digon o wybodaeth i'w galluogi i ardystio'r nwyddau perthnasol a rhoi Tystysgrif Iechyd Allforio. Fodd bynnag, mae'r mathau o dystiolaeth ategol a awgrymir ac a roddir er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau hyn yn debygol o gael eu derbyn gan y rhan fwyaf o Swyddogion Ardystio neu bob un ohonynt.
25. Dylai gweithredwyr hybiau logisteg ymgynghori â'u cyflenwyr a chadarnhau bod y wybodaeth ategol a roddir yn y safle gwreiddiol yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar Swyddogion Ardystio yn yr hwb logisteg i roi'r Dystysgrif Iechyd Allforio. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen ar Dystysgrifau Iechyd Allforio yn amrywio yn ôl nwydd a gellir ei hadolygu.
26. Bydd angen i gyflenwyr sy'n anfon cynhyrchion sy'n ddarostyngedig i ardystiad ategol sicrhau eu bod yn cymryd digon o gamau i alluogi'r Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg i fodloni ei hun nad amharwyd ar y cynhyrchion ers i'r ardystiad ategol a datganiad y Gweithredwr Busnes Bwyd gael eu cwblhau, yn enwedig wrth deithio rhwng manau lle yr ychwanegir llwythi. Efallai y bydd angen sêl fasnachol/preifat at y diben hwn.
27. Dylai'r ardystiad(au) ategol gwreiddiol gael eu hanfon at y Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg a dylid rhoi copi i weithredwr yr hwb logisteg. Dylai'r Swyddog Ardystio yn y safle gwreiddiol hefyd gadw copi ar gyfer ei gofnodion ei hun. Ar yr amod bod digon o fesurau diogelu, efallai y bydd modd i ardystiadau ategol gael eu hanfon yn electronig, yn hytrach nag ar ffurf copi caled. Y cyfnod gofynnol safonol ar gyfer cadw copïau a dogfennau sy'n ymwneud â Thystysgrifau Iechyd Allforio swyddogol yw tair blynedd.

Cyflenwyr cynhyrchion pysgodfeydd (gan gynnwys pysgod ffres) a Molysgiaid Dwygragennog Byw

Cynhyrchion pysgodfeydd o laniadau uniongyrchol

28. Pan fydd cychod pysgota (cofrestredig neu gymeradwy) yn dal ac yn glanio pysgod ffres sydd wedi'u cyfyngu i gynhyrchu cynradd¹⁴ ac yn eu cludo'n uniongyrchol i hwb logisteg, ni fydd angen i'r Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg gael gwybodaeth ategol gan Swyddog Ardystio arall er mwyn rhoi'r Dystysgrif Iechyd Allforio. Yn hytrach, bydd y canlynol yn caniatáu i'r Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg roi'r Dystysgrif Iechyd Allforio:

- a. Dogfen fasnachol a'r wybodaeth ofynnol am y gadwyn fwyd a
- b. Byddai'n rhaid i'r rheolaethau a'r prosesau angenrheidiol er mwyn sicrhau diogelwch y cynnyrch gael eu cynnal yn yr hwb logisteg a'u dilysu gan y Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg.

29. Dylai cyflenwyr drafod a chytuno ar ba wybodaeth am y gadwyn fwyd y bydd angen iddynt ei darparu i'r Swyddogion Ardystio mewn hybiau logisteg, er mwyn sicrhau y gall eu cynhyrchion gael eu hardystio.

30. Yn achos cychod sydd wedi'u rhestru'n sefydliadau bwyd cymeradwy (cychod rhewi, cychod ffatri neu gychod nwyddau rheweiddiedig) sy'n ymgymryd â chynhyrchu eilaidd¹⁵ ar y môr, bydd angen i'r Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg gael ardystiad sydd wedi'i roi yn unol â'r dull Ardystio Allforio Pysgod Seiliedig ar Risg (gweler isod)¹⁶ neu, ar gyfer cychod nad ydynt o dan faner y DU, Ddogfen Mynediad Iechyd Cyffredin o'r safle rheoli ffiniau yn y man cyrraedd.

Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg

31. Gellir defnyddio'r dull Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg (RBFEC) ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a molysgiaid dwygragennog byw a ardystir gan Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd, a allforir yn uniongyrchol o'r safle gwreiddiol ac o safle cymeradwy addas arall, megis hwb logisteg. Yn yr achos olaf, bydd angen ffurf benodol ar wybodaeth ategol. Dylai ardystwyr mewn hybiau gyfeirio at ganllawiau RBFEC penodol (ET196) sydd ar gael o Borth Milfeddygon APHA am ragor o fanylion am y dull gweithredu.

¹⁴ Mae cynhyrchu cynradd yn cynnwys ffermio, pysgota a chasglu cynhyrchion pysgodfeydd byw. Mae prosesau cysylltiedig yn cynnwys lladd, gwaedu, tynnu'r pen, tynnu perfedd, tynnu esgyll, oeri a lapio, a chludo cynhyrchion pysgodfeydd nad yw eu natur wedi newid yn sylweddol (gan gynnwys cynhyrchion pysgodfeydd byw) o'r lle cynhyrchu (cynaeafu/dal) i'r sefydliad cyrchu cyntaf.

¹⁵ Cynhyrchu eilaidd yw unrhyw broses sy'n mynd y tu hwnt i gynhyrchu cynradd a'i brosesau cysylltiedig¹⁴.

32. Mae'r wybodaeth ategol ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a molysgiaid dwygragenog byw a ddarperir o dan RBFEC (Atodiad I) yn cynnwys tair elfen wahanol:
- a. Rhan I: Ardystiad Ategol, a ardystir gan Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd ac sy'n ddilys am gyfnod sy'n seiliedig ar asesiad risg allforio'r safle gwreiddiol a'r prosesau a ddefnyddir yno. Gellir rhoi'r ardystiad am hyd y cyfnod hwnnw (uchafswm o 6 mis), dylai'r copi gwreiddiol gael ei anfon at y Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg a dylai'r cyflenwr gadw copi ardystiedig. Mae'r cyflenwr yn copïo'r copi ardystiedig, y mae'n rhaid ei anfon gyda phob swp o gynnyrch i'r hwb logisteg.
 - b. Rhan II: Datganiad Cyflenwr, a gwblhawyd gan Weithredwr Busnes Bwyd. DIWEDDARIAD Ebrill 2021: Mae Rhan 2 yn ddilys am gyfnod o fis, caiff yr holl lwythi a anfonir i hwb logisteg o fewn y cyfnod hwnnw eu cwmpasu gan un datganiad, ar yr amod nad oes unrhyw newidiadau wedi cael eu gwneud i'r safle cynhyrchu na'r prosesau ers i Ran 1 gael ei rhoi. Os caiff unrhyw newidiadau eu gwneud, mae gan y Gweithredwr Busnes Bwyd ddyletswydd i hysbysu'r Swyddog Ardystio a'r hwb logisteg yr anfonir y cynnyrch iddo ar unwaith. Yn yr achos hwn, byddai angen i'r Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd gynnal archwiliad newydd, a byddai angen rhoi Rhan I newydd.
 - c. Rhan III: Manylion y cynnyrch/cynhyrchion, y mae'n rhaid i'r Gweithredwr Busnes Bwyd eu cwblhau ar gyfer pob swp o gynnyrch a anfonir i'r hwb logisteg. Mae'n rhaid i hwn ddatgan manylion y swp a anfonir.
33. Mae'n rhaid rhoi rhif cyfeirnod unigryw i bob Ardystiad Ategol (Rhan I) a roddir gan y Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd. Mae'n rhaid i fformat y system rifo hon fod yn unigryw a dilyn fformat penodol¹⁷. Bydd angen i ddatganiad y cyflenwr (Rhan II) gael ei ardystio i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r rhif Ardystiad Ategol cyfatebol.
34. **Dim ond** Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd sy'n gallu cwblhau a rhoi'r Ardystiad Ategol i'w ddefnyddio yn unol â'r dull RBFEC (Atodiad I). Gall Milfeddyg Swyddogol mewn hwb logisteg ardystio'r nwyddau ar sail yr Ardystiad Ategol hwn (Atodiad I).
35. DIWEDDARIAD Gorffennaf 2021: Mae'r wybodaeth ategol ar gyfer anifeiliaid dyframaeth byw a restrir, neu gynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hyn y bydd angen eu prosesu ymhellach neu a gaiff eu prosesu ymhellach cyn i bobl eu bwyta, a roddir o dan y dull Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg (Atodiad II) yn cynnwys dwy elfen ar wahân:

¹⁷ Fformat: Rhif/rhif unigryw'r sefydliad bwyd cymeradwy ar gyfer y Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd sy'n llofnodi Rhan I/dyddiad dod i ben/rhif dilyniannol/(e.e.: 1543//nv00027/01-10-2020/1).

- a. Rhan I: yr Ardystiad Iechyd Anifeiliaid Milfeddygol, a ardystir dan oruchwyliaeth Aelod o Goleg Brenhinol y Milfeddygon (MRCVS) sy'n ymweld â'r sefydliad dyframaethu ac sy'n ddilys am gyfnod sy'n seiliedig ar asesiad risg allforio'r safle gwreiddiol a'r prosesau a ddefnyddir yno. Gellir rhoi'r ardystiad am hyd y cyfnod hwnnw (hyd at chwe mis), dylai'r copi gwreiddiol gael ei anfon at y Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg a dylai'r cyflenwr gadw copi ardystiedig. Dylai'r milfeddyg bennu dyddiad dod i ben sy'n gymesur â phroffil risg o glefyd y safle dyframaethu.
- b. Rhan II: Ardystiad Ategol, a gwblheir gan Filfeddyg Swyddogol yn dilyn archwiliad clinigol lai na 72 awr cyn i'r cynnyrch gael ei lwytho o'r safle dyframaethu. Dim ond pan na fydd Swyddog Ardystio¹⁸ ar gael i archwilio'r nwyddau cyn iddynt gael eu hanfon o'r sefydliad gwreiddiol y bydd angen cwblhau Rhan II. Dylai'r copi gwreiddiol gael ei anfon ymlaen at y Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg fel tystiolaeth i ategu'r broses o ardystio'r nwyddau cyn eu hanfon.

36. Mae'n rhaid rhoi rhif cyfeirnod unigryw i bob Ardystiad Ategol (Rhan I) a roddir gan Filfeddyg cofrestredig (MRCVS). Mae'n rhaid i fformat y system rifo hon fod yn unigryw a dilyn fformat penodol¹⁹.

37. **Dim ond** Milfeddyg Cofrestredig dynodedig sy'n gallu cwblhau a rhoi'r Ardystiad Ategol i'w ddefnyddio yn unol â'r dull Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg (Atodiad II Rhan I). Gall Milfeddyg Swyddogol mewn hwb logisteg ardystio'r nwyddau ar sail yr Ardystiad Ategol hwn (Atodiad II Rhan I).

38. Mae'n rhaid rhoi rhif cyfeirnod unigryw i bob Ardystiad Ategol (Rhan II) a roddir gan Filfeddyg Swyddogol. Mae'n rhaid i fformat y system rifo hon fod yn unigryw a dilyn fformat penodol²⁰.

39. Os na ddefnyddir y dull RBFEC, yna ni fydd Ardystiad Ategol RBFEC yn gymwys a dylai cyflenwyr/ardystwyr ddilyn y canllawiau isod fel yn achos cynhyrchion eraill sy'n dod o anifeiliaid.

¹⁸ Lle mae'r Swyddog Ardystio yn Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd neu'n Filfeddyg Swyddogol gwahanol

¹⁹ Fformat: Rhif y sefydliad dyframaethu/Rhif Cofrestru Coleg Brenhinol y Milfeddygon/dyddiad dod i ben/rhif dilyniannol

²⁰ Fformat: Rhif y sefydliad dyframaethu/Rhif SP y Milfeddyg Swyddogol/dyddiad dod i ben/rhif dilyniannol

Cyflenwyr cynhyrchion eraill sy'n dod o anifeiliaid

40. Gall Swyddogion Ardystio mewn hybiau logisteg, neu safleoedd anfon eraill oddi ar y safle gwreiddiol, sy'n derbyn cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, roi'r Dystysgrif lechyd Allforio ar gyfer y cynhyrchion hyn drwy ddibynnu ar y dystiolaeth ddilynol, gan unigolion sydd wedi'u hawdurdodi'n addas, yn y safle gwreiddiol:

- a. Ardystiad Ategol a ddefnyddir yn unol â'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol (gweler pwynt 39) neu
- b. Ardystiad a roddir ar sail swp unigol yn unol ag egwyddorion ardystio Coleg Brenhinol y Milfeddygon
- c. Tystysgrif lechyd Allforio swyddogol gan yr Asiantaeth lechyd Anifeiliaid a Phlanhigion/Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) (gweler pwynt 44) neu
- d. Dogfen Mynediad lechyd Cyffredin a roddir gan un o safleoedd rheoli ffiniau'r DU, ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a anfonir gan gyflenwyr y tu allan i'r DU.

41. Cyfrifoldeb gweithredwyr yr hybiau logisteg a'u cyflenwyr yw cytuno â'u Swyddogion Ardystio ar eu dewis ffordd o roi'r dystiolaeth hon i'w Swyddogion Ardystio. Os defnyddir Ardystiad Ategol, neu wybodaeth ategol ar sail swp unigol, mae'n bwysig bod hynny'n cynnwys yr holl dystiolaeth berthnasol y bydd ei hangen ar y Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg er mwyn rhoi'r Dystysgrif lechyd Allforio sydd ei hangen i allforio. Os defnyddir Tystysgrif lechyd Allforio swyddogol gan APHA/DAERA, bydd yn ofynnol cyflwyno cais am Dystysgrif lechyd Allforio drwy EHC Online.

Ardystiad Ategol y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol

42. Mae'r Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol yn ei gwneud yn bosibl i Ardystiadau Ategol 30 diwrnod ar gyfer cynhyrchion penodol sy'n dod o anifeiliaid²¹ gael eu hardystio oddi ar y safle cynhyrchu gwreiddiol, os yw'r cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn dod o gadwyni cyflenwi sefydlog, eu bod wedi'u pecynnu i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, a bod yr allforwyr yn aelodau o'r cynllun. Gweler y [canllawiau ar y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol](#) am ragor o wybodaeth. Mae'n rhaid cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y canllawiau ar y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol ac mae'n rhaid defnyddio templed yr Ardystiad Ategol a ddarperir yn y canllawiau hynny.

²¹ Gellir defnyddio Ardystiadau Ategol 30 diwrnod ar gyfer cynhyrchion cyfansawdd, cynhyrchion cig, paratodau cig a chynhyrchion llaeth i'w bwyta/yfed gan bobl yn ogystal â bwyd anifeiliaid anwes wedi'i brosesu. Gellir eu defnyddio hefyd ar gyfer cynhyrchion eraill sy'n dod o anifeiliaid megis mêl, coesau brogaod, malwod, molysgiaid dwyragennog byw, pysgod/cynhyrchion pysgodfeydd, wyau a chynhyrchion wyau pan fyddant i'w bwyta gan bobl ac wedi'u pecynnu'n llwyr ar gyfer y defnyddiwr terfynol (neu i'w hailbecynnu yn uniongyrchol ar adeg gwerthu i'r defnyddiwr terfynol).

Ardystiadau ar sail swp unigol

43. Os na chaniateir neu os na ddefnyddir Ardystiad Ategol y Cynllun Hwyluso Allforion Cyfunol na'r dull ardystio seiliedig ar risg, gall ardystio ar sail swp unigol gael ei ddarparu gan unigolyn sydd wedi'i awdurdodi/dynodi'n addas yn y safle gwreiddiol.
44. Bydd union gynnwys a fformat yr ardystiad yn wahanol, yn dibynnu ar y nwydd penodol a allforir a bydd angen i hyn gael ei bennu gan yr unigolyn sy'n cwblhau'r ardystiad, gyda chytundeb y Swyddog Ardystio.
45. Os mai Milfeddyg Swyddogol yw'r Swyddog Ardystio, mae egwyddorion ardystio Coleg Brenhinol y Milfeddygon yn rhoi canllawiau ar yr amgylchiadau gwahanol lle y gellir derbyn ardystiadau gan unigolion awdurdodedig gwahanol a dylid cyfeirio at y rhain.
46. O ran y wybodaeth olrhain sydd ei hangen i ardystio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, fel y'i diffinnir gan egwyddorion ardystio Coleg Brenhinol y Milfeddygon, gall Milfeddyg Swyddogol ddibynnu ar ardystiadau ategol gan Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd. Dylai'r Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd ddefnyddio ei stamp rhifo personol ar ddogfennau a ddarperir/anfonir yn y cyd-destun hwn.

Tystysgrif lechyd Allforio Swyddogol

47. Gall Tystysgrif lechyd Allforio swyddogol gael ei rhoi yn y safle gwreiddiol, er mwyn rhoi tystiolaeth ategol ar gyfer y llwyth sydd i'w gyfuno â llwythi eraill yn yr hwb logisteg a'i ail-ardystio'n un llwyth mwy o faint (gweler pwynt 20). Yna, daw'r Dystysgrif lechyd Allforio yn dystiolaeth ategol i'w chadw gan y Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg, gyda chopi o'r Dystysgrif lechyd Allforio newydd, at ddibenion archwilio.

Ardystio Tystysgrifau Iechyd Allforio

48. Unwaith y bydd swp o gynnyrch wedi'i dderbyn yn yr hwb logisteg/safle anfon arall, ynghyd â'r wybodaeth ategol berthnasol, a bod unrhyw broses gyfuno wedi digwydd, bydd angen i'r Swyddog Ardystio roi'r Dystysgrif Iechyd Allforio berthnasol ar gyfer y cynnyrch i'w allforio.
49. Caiff Tystysgrifau Iechyd Allforio swyddogol APHA eu llofnodi gan y Swyddog Ardystio a'u rhoi ar un o'r seiliau canlynol:
- a. gwybodaeth uniongyrchol y Swyddog Ardystio am ffeithiau cyfredol a data sy'n berthnasol i ardystio a geir drwy:
 - i. Ei archwiliadau a'i ymchwiliadau ei hun, y gellir eu cynnal gyda chymorth Swyddog Cymorth Ardystio
 - ii. Rheolaethau Swyddogol, e.e. Rheolaethau'r Awdurdod Lleol (ALI) ar gyfer sefydliadau bwyd cymeradwy, a rheolaethau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)/Food Standards Scotland (FSS), ar gyfer sefydliadau cig cymeradwy²² neu
 - iii. cael tystiolaeth a ddarperir gan Swyddogion Ardystio ALLau neu Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)/Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) (gweler pwynt 25).
 - b. ffeithiau a data sy'n berthnasol i'r ardystiad, a gafwyd gan Swyddog Ardystio arall a oedd yn gweithredu o dan reolaeth ALI/APHA/DAERA, cyhyd ag y gall y Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg gadarnhau cywirdeb ffeithiau a data o'r fath a/neu
 - c. ffeithiau a data sy'n berthnasol i'r ardystiad a gafwyd o systemau rheoli'r Gweithredwr Busnes Bwyd ei hun, wedi'u hategu ac wedi'u cadarnhau gan ganlyniadau archwiliadau rheolaidd gan ALLau neu'r ASB/FSS, lle mae'r Swyddog Ardystio wedi'i fodloni y cydymffurfir â'r amodau ar gyfer rhoi'r dystysgrif swyddogol.
50. Dylai Swyddogion Ardystio sy'n defnyddio ardystiadau ar sail swp unigol sicrhau eu hunain eu bod yn gallu derbyn yr ardystiad, yn seiliedig ar awdurdodiad yr unigolyn sy'n ei roi. Ar gyfer Milfeddygon Swyddogol, mae hyn yn golygu sicrhau bod yn rhaid bod yr ardystiad wedi'i roi yn unol ag egwyddorion ardystio Coleg Brenhinol y Milfeddygon. Gall Swyddogion Ardystio weld rhestrau APHA/DAERA o Filfeddygon Swyddogol a Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd drwy gysylltu â'r awdurdod priodol lle y bo angen a gellir hefyd ddibynnu ar lofnodion swyddogol a

²² Mae Model yr Hwb Logisteg yn ei gwneud yn ofynnol bod cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, heb gynnwys cynhyrchion pysgodfeydd ffres, wedi dod o sefydliad (safle gwreiddiol) a gymeradwyir gan ei Awdurdod Lleol (ALI) neu'r ASB/FSS fel safle sy'n [cydymffurfio'n foddhaol â'r holl ofynion hylendid](#) yn [Rheoliad 853/2004](#). Felly, mae safleoedd a gymeradwyir gan yr ALI ac ASB/FSS yn cydymffurfio â'r gofynion yn yr adran Ardystio Iechyd y Cyhoedd o Ran II o'r Tystysgrifau Iechyd Allforio sy'n ymwneud â Rheoliad Rhif 853/2004 y CE.

stampiau personol Milfeddygon Swyddogol/Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd awdurdodedig, lle y bo'n gymwys.

51. Dylai Swyddogion Ardystio sy'n defnyddio model yr Ardystiad Ategol a ddarperir yn Atodiad I ac sy'n cael mynediad at gronfa ddata orfodi gyffredin, gadarnhau statws pob cyflenwr cyn llofnodi Tystysgrif lechyd Allforio swyddogol derfynol APHA yn yr hwb logisteg cyn anfon. Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol (ALlau) sy'n rhoi ardystiadau ategol i gyflenwyr ddiweddarau'r gronfa ddata cyn gynted ag y bydd unrhyw faterion o ran cydymffurfiaeth yn codi ac adalw'r ardystiad ar unwaith a hysbysu'r Swyddogion Ardystio perthnasol sy'n dibynnu arnynt o bosibl. Pan fydd cronfa ddata orfodi gyffredin yn weithredol, bydd yn adlewyrchu unrhyw benderfyniadau i ddiddymu ardystiadau ategol ond nid hon fydd yr unig ddull o gyfathrebu. Pan na fydd cronfa ddata gyffredin yn weithredol, dylai'r Swyddog Ardystio yn yr hwb logisteg sefydlu gweithdrefnau cyfathrebu'n uniongyrchol â'r Swyddog Ardystio yn y safle gwreiddiol, er mwyn sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer dilysu ac adalw ardystiadau ategol yn parhau i weithredu.
52. Cyn llofnodi a rhoi Tystysgrifau lechyd Allforio, dylai Swyddogion Ardystio, fel mater o drefn, edrych ar dudalennau gwe cyhoeddus yr asiantaethau perthnasol (CEFAS/Marine Scotland/DAERA/PHA) ar gyfer statws clefyd anifeiliaid cenedlaethol a/neu ranbarthol perthnasol. Os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch statws clefyd y cynnyrch sy'n cael ei ardystio, mae'n rhaid datrys hyn drwy gysylltu â'r awdurdodau cymwys ar gyfer yr ardaloedd dan sylw.
53. Pan fydd Swyddog Ardystio yn llofnodi Tystysgrif lechyd Allforio (neu ardystiad ategol ar unrhyw fformat), mae'n rhaid ei fod wedi gweld, wedi derbyn neu wedi dilysu (fel y bo'n briodol) yr holl fanylion perthnasol sydd eu hangen i roi'r Dystysgrif lechyd Allforio neu'r ardystiad ategol.
54. Ym **Mhrydain Fawr**, gall Swyddogion Ardystio ddefnyddio Swyddog Cymorth Ardystio i gasglu tystiolaeth ynglŷn â chwblhau Tystysgrifau lechyd Allforio neu ardystiadau ategol. Fodd bynnag, ni all ymgymryd â thasgau na gwneud penderfyniadau sy'n gofyn am farn broffesiynol Swyddog Ardystio. Mae'n rhaid i'r Swyddogion Cymorth Ardystio gael eu hawdurdodi gan APHA ac mae'n rhaid iddynt feddu ar y Cymhwyster Rheolaethau Swyddogol priodol (Paraweithiwr Proffesiynol lechyd Anifeiliaid) (OCQ (AHP)-CSO). Yng **Ngogledd Iwerddon**, gall gwiriadau o'r fath gael eu cynnal gan Swyddog Cymorth Ardystio Masnach yn DAERA neu Swyddog Cymorth Ardystio sy'n gweithio i ALI neu Filfeddyg Swyddogol.
55. Mae'n rhaid i'r Swyddog Ardystio gyfarwyddo'r Swyddog Ardystio Cymorth/Swyddog Ardystio Cymorth Masnach ynglŷn â sut a ble y dylid cael gafael ar unrhyw dystiolaeth angenrheidiol sy'n berthnasol i ofynion y Dystysgrif lechyd Allforio. Gall ond ymgymryd â'r cyfryw waith archwilio, dilysu ffeithiau a chasglu tystiolaeth ag a bennir gan y Swyddog Ardystio sy'n ei gyfarwyddo, a fydd yn parhau'n gyfrifol am ardystio'r cynnyrch.

Tystysgrifau Iechyd Allforio Ar-lein

56. Tystysgrifau Iechyd Allforio Ar-lein (EHC Ar-lein) yw llwyfan digidol newydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, lle y gellir gwneud cais am Dystysgrifau Iechyd Allforio a lle y gellir eu rhoi. Mae EHC Ar-lein ar gael i allforwyr, asiantau allforio a Swyddogion Ardystio i gofrestru, gwneud cais am Dystysgrifau Iechyd Allforio ac ymgymryd â gwasanaethau ardystio. Gellir gweld y system EHC Ar-lein drwy ddilyn y ddolen ganlynol: www.gov.uk/guidance/certify-an-export-health-certificate. Dim ond ar gyfer nwyddau sy'n cyrraedd yr UE neu Ogledd Iwerddon o 1 Ionawr 2021 y bydd angen gwneud cais am Dystysgrifau Iechyd Allforio i allforio nwyddau i'r UE, neu symud nwyddau i Ogledd Iwerddon.
57. Ym Mhrydain Fawr, mae angen i'r allforiwr a'r Swyddog Ardystio fod wedi'u cofrestru ar EHC Ar-lein i gwblhau cais drwy wasanaeth EHC Ar-lein. Gofynnir i allforwyr nodi eu Swyddog Ardystio yn ystod y broses gwneud cais ar EHC Ar-lein. Cyfrifoldeb yr allforiwr yw cysylltu â darparwr ardystiadau cyn gwneud y dewis hwn ar EHC Ar-lein, gan ddatblygu perthynas waith a chytuno ar delerau'r gwasanaethau ardystio i'w darparu gan y Swyddog Ardystio.
58. Mae'n rhaid i'r Dystysgrif Iechyd Allforio wreiddiol lofnodedig gael ei hanfon ar y cyd â'r llwyth y mae'n ymwneud ag ef ac ni chaniateir i'r llwythi hyn gael eu hallforio heb dystysgrif. Ni ellir ardystio nwyddau, nac anfon Tystysgrifau Iechyd Allforio, yn ôl-
weithredol.

Atodiad I: Gwybodaeth ategol ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd (gan gynnwys pysgod ffres) a Molysgiaid Dwygragennog Byw a ardystir o dan y dull Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg (RBFEC)

Dylid darllen a defnyddio'r templed hwn ochr yn ochr â'r canllawiau ar Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg (RBFEC) (ET196) sydd ar gael ar Borth Milfeddygon APHA:

http://apha.defra.gov.uk//External_OV_Instructions/Export_Instructions/Certification_Procedures/Products_Exports.html

Bydd Rhan I yn cael ei chwblhau a'i dilysu gan y Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd, a fydd yn ei darparu ar bapur pennawd yr Awdurdod Lleol i'r Gweithredwr Busnes Bwyd.

Datganiad Cyflenwr a fydd yn cael ei gwblhau gan y Gweithredwr Busnes Bwyd yw Rhan II.

DIWEDDARIAD Ebrill 2021: Mae Rhan II yn ddilys am gyfnod o fis: caiff yr holl lwythi a anfonir i hwb logisteg o fewn y cyfnod hwnnw eu cwmpasu gan un datganiad, ar yr amod nad oes unrhyw newidiadau wedi cael eu gwneud i'r safle cynhyrchu na'r prosesau ers i Ran 1 gael ei rhoi.

Mae Rhan III yn nodi manylion y cynhyrchion.

NODYN PWYSIG:

NID TYSTYSGRIF IECHYD ALLFORIO SWYDDOGOL YW'R ARDYSTIAD ATEGOL HWN. DYLLID EI DDEFNYDDIO AR GYFER SYMUDIADAU MEWNOL YN Y DU YN UNIG DIM OND ATEGU ARDYSTIAD TERFYNOL CYNHYRCHION PYSGODFEYDD A PHYSGOD CREGYN I'W HALLFORIO'N UNIONGYRCHOL I'R UE NEU SYMUDIADAU I OGLEDD IWERDDON O DAN BROTOCOL GOGLEDD IWERDDON A WNA.

Rhan I: Ardystiad Ategol

Rhif cyfeirnod y ddogfen:

[Rhif sefydliad bwyd cymeradwy/rhif unigryw'r Swydddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd sy'n llofnodi Rhan I/dyddiad dod i ben/rhif dilyniannol]

Rwyf fi, y Swydddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd dynodedig sy'n llofnodi isod drwy hyn yn datgan fy mod wedi archwilio'r safle isod yn unol â'r canllawiau ar Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg ac asesiad risg cofnodedig a gynhaliwyd gan (Rhowch yr Awdurdod Lleol) mewn perthynas â'r safle hwn:

Rhif y sefydliad bwyd cymeradwy:

Enw a chyfeiriad y Gweithredwr Busnes Bwyd, os yw'n wahanol:

Enw, cyfeiriad a rhif cymeradwyo'r sefydliad(au) y caiff y llwyth ei anfon **iddo/iddynt** (e.e. depos allforio/hybiau logisteg):

Ac, ar ôl adolygu prosesau'r cyflenwr a grybwyllir uchod, rwyf o'r farn bod y safle hwn yn gweithredu'n unol â gofynion Rhan II.1 (Ardystiad iechyd y cyhoedd) o Dystysgrif Iechyd Allforio Cynhyrchion *Pysgodfeydd/ Tystysgrif Iechyd Allforio *Molysgiaid Dwygragenog Byw, Draengroenogion, Tiwnigogion a Boldroediaid Morol i'w bwyta gan bobl. (*dilêwch fel y bo'n briodol)

Dyddiad yr archwiliad:

Mae'r ardystiad iechyd hwn yn ddilys tan(dyddiad dod i ben) neu'n gynt os deuf yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r cyflenwr uchod neu'r ffordd y mae'n darparu bwyd diogel i'w osod ar farchnad y DU neu'r UE. Os caf fy hysbysu neu os deuf yn ymwybodol o newidiadau sy'n effeithio ar ddilysrwydd yr ardystiad neu'r dyddiad dod i ben isod, byddaf yn hysbysu'r Swyddog(ion) Ardystio sy'n gyfrifol am ardystio allforion o'r sefydliad(au) a nodir yn yr ardystiad hwn a byddaf yn diddymu'r ardystiad ategol hwn neu'n darparu ardystiad ategol newydd.

Dyddiad Dod i Ben: [Yn unol â'r canllawiau ar archwiliadau seiliedig ar risg ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd ac asesiad risg y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd]

Llofnod:	
Enw: [rhowch enw llawn]	
Cyfeiriad:	
Dyddiad llofnodi	

Stamp Swyddogol

Rhan II: Datganiad Cyflenwr

RHIF CYFEIRNOD Y DDOGFEN²³ ²⁴

Mae gennyf fi..... (Enw llawn),

sef..... (Rôl swyddogol yn y cwmni)

.....

(Enw a chyfeiriad y cwmni cyflenwi²⁵), yr awdurdod a'r cyfrifoldeb i lofnodi'r datganiad hwn ar ran y cwmni cyflenwi hwn.

Rhif y sefydliad bwyd cymeradwy.....

Datganaf drwy hyn y bydd fy sefydliad yn darparu'r manylion sydd eu hangen ar gyfer Rhan III o'r ardystiad hwn, gan gynnwys rhestr gyflawn o'r cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (wedi'u cyfyngu i gynhyrchion pysgodfeydd neu folysgiaid dwygragennog byw, tiwnigogion, boldroediaid neu ddraengroenogion) a gyflenwir¹ i

..... (Enw cwmni gweithredwr yr hwb logisteg).

gyda phob swp o gynhyrchion yn cael ei anfon i'r cyfleuster hwnnw cyhyd ag y bydd y datganiad hwn yn ddilys.

Dyddiad y daw dilysrwydd Datganiad Rhan II i ben:..... [1 mis o ddyddiad heddiw]

Datganaf, os caiff newidiadau eu gwneud yn y safle hwn mewn perthynas â'r safle neu'r broses gynhyrchu, fel yr archwiliwyd gan y Swyddog Ardystio a lofnododd yr ardystiad ategol, y byddaf yn hysbysu'r Swyddog Ardystio hwnnw a'r hwb logisteg a nodir yn y datganiad hwn ar unwaith.

Deallaf y gall canlyniadau darparu datganiadau gwallus, camarweiniol neu anwir, y bydd y Swyddog Ardystio yn dibynnu arnynt mewn perthynas â'r dilysiadau angenrheidiol yn y dystysgrif iechyd allforio berthnasol, neu fethu â hysbysu'r partïon perthnasol am newidiadau, gynnwys y canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- gwrthod y cynnyrch a allforiwyd ar y safle rheoli ffiniau a'r goblygiadau ariannol i'r cwmni hwn a all godi

²³ Mae angen i ddatganiad y cyflenwr gael ei ardystio er mwyn dangos ei fod yn cydymffurfio â'r rhif Ardystiad Ategol cyfatebol (gweler pwynt 34 yn y Canllawiau ar Hybiau Logisteg: 'Rhoi Tystysgrifau Iechyd Allforio ar gyfer Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid oddi ar y safle gwreiddiol')

²⁴ Dylai'r rhif hwn gyfateb i'r rhif cyfeirnod a roddwyd ar gyfer Rhan 1, gyda llythyren ychwanegol i nodi pa fis y cyfeirir ato. Er enghraifft, os mai XXXXX oedd rhif cyfeirnod Rhan 1, dylai'r rhif cyfeirnod ar gyfer Rhan 2 fod yn XXXXXa ar gyfer mis un, XXXXXb ar gyfer mis dau ac yn y blaen nes bod rhan 1 wedi'i 'hadnewyddu'.

²⁵ Ystyr cyflenwi yw anfon nwyddau i neu drwy ganolfan logisteg, canolfan ddsbarthu neu safle arall, p'un a ydynt i'w hallforio gan barti arall ai peidio, neu drwy asiant.

- lefelau uwch o archwilio a dilysu a'r costau cysylltiedig i'r cwmni hwn
- tynnu gwasanaethau ardystio yn ôl gan yr Awdurdodau Cymwys
- diddymu'r ardystiad(au) ategol sydd mewn grym.

Rhan III: Manylion y cynnyrch/cynhyrchion

Adran A: Tarddle a Chyrchfan y cynnyrch/cynhyrchion

a) Enw, cyfeiriad a rhif cymeradwyo'r sefydliad y caiff y llwyth ei anfon **ohono** (y safle gwreiddiol):

.....
.....

b) Enw, cyfeiriad a rhif cymeradwyo'r sefydliad y caiff y llwyth ei anfon **iddo** (yr hwb logisteg):

.....
.....

Adran B: Categori o gynnyrch/cynhyrchion:

*dilëwch fel y bo'r angen

***Cynhyrchion Pysgodfeydd/*Molysgiaid Dwygragennog Byw, Draengroenogion, Tiwnigogion a Boldroediaid i'w bwyta gan bobl**

Enw'r cynnyrch neu ddisgrifiad ohono			
Math o becynnu			
Amodau cludo (Amgylchynol, wedi'u hoeri neu wedi'u rhewi)			
Rhanbarth tarddiad			

Rhywogaeth (enwau gwyddonol)	Natur y nwydd (Gwylt / dyframaethu)	Math o driniaeth (oeri, rhewi neu brosesu)	Rhif cymeradwyo'r sefydliad	Safle gweithgynhyrchu h.y. cwch rhewi, storfa oer, safle prosesu

Awdurdodwyd gan

Enw:
Llofnod:
Swydd:
Dyddiad:

DIWEDDARIAD Gorffennaf 2021:

Atodiad II: Gwybodaeth ategol ar gyfer anifeiliaid dyframaeth byw a restrir, neu gynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hyn y bydd angen eu prosesu ymhellach neu a gaiff eu prosesu ymhellach cyn i bobl eu bwyta a ardystir o dan y dull Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg (RBFEC)

Dylid darllen a defnyddio'r templed hwn ochr yn ochr â'r canllawiau ar Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg (RBFEC) (ET196) sydd ar gael ar Borth Milfeddygon APHA:

http://apha.defra.gov.uk/External_OV_Instructions/Export_Instructions/Certification_Procedures/Products_Exports.html

Ardystiad Iechyd Anifeiliaid Milfeddygol i'r Milfeddyg cofrestredig (MRCVS) ei gwblhau yw Rhan I. Mae Rhan I yn ddilys am gyfnod o chwe mis (ar y mwyaf), ar yr amod nad oes unrhyw newidiadau wedi cael eu gwneud i'r safle dyframaethu na'r prosesau ers i Ran 1 gael ei rhoi.

Ardystiad Ategol a gwblheir gan Filfeddyg Swyddogol yn dilyn archwiliad clinigol lai na 72 awr cyn i'r cynnyrch gael ei lwytho o'r safle dyframaethu yw Rhan II. Dim ond pan na fydd Swyddog Ardystio ar gael i archwilio'r nwyddau cyn iddynt gael eu hanfon y bydd angen cwblhau Rhan II.

NODYN PWYSIG:

ET197 (Diw. 09/21)

NID TYSTYSGRIF IECHYD ALLFORIO SWYDDOGOL YW'R ARDYSTIAD ATEGOL HWN. DYLLID EI DDEFNYDDIO AR GYFER SYMUDIADAU MEWNOL YN **Y DU** YN UNIG DIM OND ATEGU'R GOFYNION I FILFEDDYG ORUCHWYLIO SAFLE DYFRAMAETHU AR GYFER ALLFORIO CYNHYRCHION PYSGODFEYDD A MOLYSGIAID DWYGRAGENNOG BYW I'W BWYTA GAN BOBL YN UNIONGYRCHOL I'R UE NEU SYMUD I OGLEDD IWERDDON O DAN BROTOCOL GOGLEDD IWERDDON A WNA

Rhan I: Ardystiad Iechyd Anifeiliaid Milfeddygol

(Rhan II.2 o Dystysgrif Iechyd Allforio *Cynhyrchion Pysgodfeydd/*Molysgiaid Dwygragennog Byw, Draengroenogion, Tiwnigogion a Boldroediaid i'w bwyta gan bobl (*dilëwch fel y bo'n briodol)

Rhif cyfeirnod y ddogfen:

[Rhif y sefydliad dyframaethu/Rhif Cofrestru Coleg Brenhinol y Milfeddygon/dyddiad dod i ben/rhif dilyniannol]

Rwyf fi, y Milfeddyg cofrestredig (MRCVS) sydd wedi llofnodi isod, yn cadarnhau drwy hyn fy mod wedi archwilio'r safle dyframaethu isod at ddiben dod o hyd i arwyddion o achosion o glefydau, a gwybodaeth amdanynt, gan gynnwys y clefydau perthnasol a restrir y cyfeirir atynt yn Atodiad I i Reoliad Dirprwyedig (UE) 2020/692 a chlefydau sy'n dod i'r amlwg ar amllder sy'n gymesur â'r risg y mae'r sefydliad yn ei pheri. Nid yw'r safle dyframaethu yn destun mesurau cyfyngu cenedlaethol am resymau yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid neu oherwydd marwolaethau annormal heb reswm pendant, ac nid yw ychwaith yn destun rhaglen genedlaethol i ddileu clefydau. Os bydd newid i statws clefyd y safle dyframaethu, rhaid i'r gweithredwr dyframaethu roi gwybod i'r Milfeddyg Swyddogol yn yr hwb logisteg.

Rwyf fi, sydd wedi llofnodi isod, yn ardystio bod yr anifeiliaid/cynhyrchion yn deillio o safle dyframaethu sydd â system ar waith i gynnal cofnodion cyfredol a'u cadw am o leiaf dair blynedd, gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- i) rhywogaethau, categorïau, a nifer yr anifeiliaid dyframaeth yn y sefydliad
- ii) achosion o symud anifeiliaid dyfrol i mewn i'r sefydliad a symud anifeiliaid dyframaeth allan ohono
- iii) marwolaethau yn y sefydliad.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth, ac fel y mae'r gweithredwr wedi datgan, nid yw'r... anifeiliaid/cynhyrchion wedi bod mewn cysylltiad ag anifeiliaid dyfrol â statws iechyd is.

Rwyf fi, sydd wedi llofnodi isod, yn cadarnhau nad yw'r anifeiliaid/cynhyrchion wedi'u brechu rhag y clefyd(au) a restrir yn II.2.4.1 ii), neu, os yw ail ran II.2.4. yn gymwys, y bydd yr anifeiliaid/cynhyrchion yn mynd i sefydliad bwyd dyfrol ar gyfer rheoli clefydau o fewn yr Undeb sydd wedi'i gymeradwyo yn unol ag Erthygl 11 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2020/691, lle y cânt eu prosesu i'w bwyta gan bobl.

Rwyf fi, sydd wedi llofnodi isod, yn cadarnhau y daeth yr anifeiliaid/cynhyrchion o blith anifeiliaid sy'n deillio o sefydliad:

- i) lle nad oedd marwolaethau annormal heb reswm pendant

ii) lle nad ydynt wedi bod mewn cysylltiad ag anifeiliaid dyfrol o rywogaethau a restrir nad oeddent yn cydymffurfio â gofynion adran II.2.1 Tystysgrif Iechyd Allforio 8361/Tystysgrif Iechyd Allforio 8364.

Rhif y sefydliad dyframaethu:

Enw a chyfeiriad y sefydliad dyframaethu:

Enw, cyfeiriad a rhif cymeradwyo'r sefydliad(au) y caiff y llwyth ei anfon **iddo/iddynt** (e.e. depos allforio/hybiau logisteg):

Dyddiad yr archwiliad:

Mae'r ardystiad iechyd hwn yn ddilys tan(dyddiad dod i ben) neu'n gynt os deuf yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r cyflenwr uchod neu'r ffordd y mae'n darparu bwyd diogel i'w osod ar farchnad y DU neu'r UE. Os caf fy hysbysu neu os deuf yn ymwybodol o newidiadau sy'n effeithio ar ddilysrwydd yr ardystiad neu'r dyddiad dod i ben isod, byddaf yn diddymu'r ardystiad ategol hwn neu'n darparu ardystiad ategol newydd.

Dyddiad Dod i Ben:

Llofnod:	
Enw: [rhowch enw llawn]	
Cyfeiriad:	
Dyddiad llofnodi:	
Rhif Cofrestru Coleg Brenhinol y Milfeddygon:	

Stamp Practis Milfeddygol

NODYN PWYSIG:

NID TYSTYSGRIF IECHYD ALLFORIO SWYDDOGOL YW'R ARDYSTIAD ATEGOL HWN). DYLLID EI DDEFNYDDIO AR GYFER SYMUDIADAU MEWNOL YN **Y DU** YN UNIG DIM OND ATEGU'R BROSES O GYNNAL ARCHWILIAD CLINIGOL O ALLFORION DYFRAMAETH SY'N ADDAS I BOBL EU BWYTA, A HYNNY LAI NA 72 AWR CYN IDDYNT GAEL EU LLWYTHO O'R SAFLE DYFRAMAETHU CYN EU HALLFORIO I'R UE NEU EU SYMUD I OGLEDD IWERDDON O DAN BROTOCOL GOGLEDD IWERDDON A WNA.

Rhan II: Ardystiad Ategol

Rhif cyfeirnod y ddogfen:

[Rhif y sefydliad dyframaethu/rhif SP unigryw'r Milfeddyg Swyddogol/dyddiad/rhif dilyniannol]

Rwyf fi, sydd wedi llofnodi isod, yn datgan fy mod wedi cynnal archwiliad clinigol o'r allforion dyframaeth a nodir isod sy'n addas i bobl eu bwyta, a hynny lai na 72 awr cyn iddynt gael eu llwytho'n uniongyrchol o'r safle dyframaethu cyn eu hallforio i'r UE neu eu symud i Ogledd Iwerddon. Yn ystod yr archwiliad, ni ddangosodd yr anifeiliaid unrhyw symptomau clinigol o glefyd trosglwyddadwy ac, yn ôl cofnodion perthnasol y sefydliad, nid oedd arwydd o broblemau sy'n gysylltiedig â chlefyd.

Manylion y llwyth dyframaeth:

--

Sylwadau ar yr archwiliad clinigol:

--

Enw a chyfeiriad sefydliad y safle dyframaethu:

--

Enw, cyfeiriad a rhif cymeradwyo'r sefydliad(au) y caiff y llwyth ei anfon **iddo/iddynt** (e.e. depos allforio/hybiau logisteg):

--

Dyddiad yr archwiliad:

Amser yr archwiliad:

Llofnod:	
-----------------	--

Enw: [rhowch enw llawn]	
Cyfeiriad:	
Dyddiad llofnodi	

Stamp Milfeddyg Swyddogol
